**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a'r Seilwaith
Senedd Cymru

Llyr.Gruffydd@senedd.wales

10 Hydref 2022

Annwyl Llyr,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'r bwriad i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Cynhyrchion Bioladdol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) 2022 erbyn 18 Hydref 2022.

Derbyniodd fy rhagflaenydd lythyr gan Chloe Smith AS, y Gweinidog Gwladol blaenorol dros Bobl Anabl, Iechyd a Lles yn gofyn am ganiatâd ar gyfer y Rheoliadau hyn. Mae'r Rheoliadau'n croestorri polisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Bydd y Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg am ganiatâd wedi ei anfon at Weinidogion yr Alban.

Bydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 8(1) a pharagraff 21 o Atodlen 7 o Ddeddf Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Rhaid i gynhyrchion bioladdol gael eu hawdurdodi gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch sy'n gweithredu fel yr awdurdod cymwys ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd y gwelliannau yn gosod terfynau amser cyfreithiol newydd ar gyfer awdurdodi cynhyrchion bioladdol wrth brosesu ôl-groniad o geisiadau. Trwy ymestyn y dyddiad cau dros dro am bum mlynedd, gall cynhyrchion bioladdol awdurdodedig sy'n bodoli eisoes aros ar y farchnad tan iddynt gael eu hawdurdodi o dan Reoliadau Cynnyrch Bioladdol Prydain Fawr. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ac mae disgwyl iddo gael ei osod gerbron y Senedd ar 18 Hydref 2022 gyda dyddiad cychwyn ar 31 Rhagfyr 2022.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, fe'i hystyrir yn briodol i sylwedd y gwelliannau fod yn gymwys i Gymru gan fod y Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw newid polisi. Felly, nid oes unrhyw ymwahaniad polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau'n hygyrch mewn un offeryn. Rwyf o'r farn na fyddai deddfu ar wahân i Gymru y ffordd fwyaf priodol i'r newidiadau angenrheidiol gael effaith nac ychwaith yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn aelodau craidd o'r Bwrdd Cyflawni Bioladdol (BDB) sy'n rhan o strwythurau llywodraethu Fframwaith Gyffredin Cemegau a Phlaladdwyr. Mae'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig wedi eu trafod a'u cymeradwyo gan y BDB.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu. Mae awdurdodi cynhyrchion bioladdol yn cefnogi'r mwyafrif o nodau llesiant "Cymru iachach" a 'Cymru wydn' ynghyd ag effeithiau cysylltiedig ar y nod o "Gymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang" lle caiff cynhyrchion sy'n niweidiol i fywyd dynol neu annynol eu rheoleiddio'n iawn.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr debyg at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**